



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter
a busnes

Rheoli defaid godro i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer cynhyrchu caws

Nod y prosiect

Nod y prosiect yw datblygu dealltwriaeth i'r ffactorau sydd o fewn rheolaeth ffermwyr sy'n gallu dylanwadu ar broffil bacterioleg llaeth defaid ac i werthuso ansawdd a chyfansoddiad llaeth grŵp o ddefaid godro er mwyn cynhyrchu caws heb ei basteureiddio.

Cynllun ar gyfer Profi

Cymerwyd samplau llaeth unigol a'u hanfon am brofion adnabod organebau bacterial gan ddefnyddio dadansoddiad MALDI-ToF.

Dadansoddwyd ansawdd llaeth a chyfrifon celloedd somatig gan ddefnyddio offer Delta CombiScope, model FTIR 400.


Roedd samplau llaeth o'r tanc yn cynnwys cyfrif plât aerobig, cyfrif *S. aureus* a chyfrif *E. coli* yn ogystal â phrofi ar gyfer presenoldeb /absenoldeb *Salmonella* spp, *Listeria monocytogenes* ac *E. coli* 0157.

Cymerwyd swabiau o'r trwyn hefyd a'u hanfon am brofion i ganfod organebau bacteriol.

Casgliadau Ansawdd Llaeth

- Mae canlyniadau'n dangos fod gan y mwyafrif o famogiaid sydd â chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth gyda chyfanswm is o solidau.
- Mae hyn yn dangos fod defaid gyda haint is-glinigol cronig a chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth o ansawdd is a allai effeithio'n negyddol ar faint o gaws a gynhyrchir.

June 2019 Individual Milk Samples



Uchod: Graff gyfunol yn dangos Cyfanswm Solidau Llaeth pob mamog unigol yn erbyn Cyfrif Celloedd Somatig y famog o'r sampl a gymerwyd ym mis Mehefin 2019. Mae'r canlyniadau'n dangos yn fras, os mae'r cyfrif celloedd somatig yn isel, mae'r solidau llaeth yn uchel.

- Nid oes unrhyw gysylltiad positif i'w weld rhwng samplau bacteriolegol o'r trwyn ac o'r llaeth, gan fod y boblogaeth facteriol yn wahanol iawn.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer rhoi seleniwm ychwanegol i'r mamogiaid yn amhendant ar ôl y flwyddyn gyntaf.
- Cafodd grwpiau gwahanol o facteria eu canfod a fydd yn galluogi ffermwyr i gymryd camau priodol o ran hwsmonaeth er mwyn gwella bacterioleg y llaeth.